CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 12 Mai 2020 a gynhaliwyd ddigidol drwy ddefnyddio offer Zoom.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Casi Roberts	Nerys John	
Iwan Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Mei Gwilym	
Lliwen Griffth-Williams		
Elliw Williams	Aelodau'r Cyhoedd	
Llŷr Evans	Dafydd Huws	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	Emyr Gareth	
1.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc esboniodd bod y Cyngor yn dechrau blwyddyn newydd a bod angen ethol Cadeirydd.	
2.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
	Eglurodd y Clerc bod yng nghyfarfod blynyddoedd y llynedd wedi pederfynu gosod rheol byddai pob Cadeirydd etholedig yn cael gwasanaethu yn y swydd am ddwy flynedd yn unig. Yn Ffurfiol etholwyd Iwan Huws fel Cadeirydd.	
3.0	**YMDDIHEURIADAU**	
3.1	Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths.	
4.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Nid oedd aelodau o'r gymuned yn bresennol nag roedd yr un cwestiwyn wedi ei anfon.	
5.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
	Eglurodd y Cadeirydd bod angen ethol Is-Gadeirydd. Etholwyd y Cynghorydd Daniel Williams am gyfnod o 6 mis er mwyn sicrhau bod y swydd yn cael ei llenwi; er hynny y bwriad yw bod y swydd yn cael ei llenwi ar gyfer sicrhau bod yr Is-Gdeirydd newydd yn gallu dyrchafu i'r Cadaiaryddiaeth y flwyddyn nesaf.	
6.0	**ANERCHIAD Y CYN-GADEIRYDD**	
	Nid oedd y Cadeirydd am rhoi anerchiad ond cyfeiriodd at lwyddiant y Cyngor Cymuned mewn gosod cynllun cymorth i aelodau bregys y Cymuned.	
7.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
7.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - mae'r Cynghorydd Iestyn Harris ar hyn o bryd yn cynrhychioli'r Cyngor Cymuned ac mae yn gwneud hynny am gyfnod o 4 mlynedd. Pan fydd y cyfnod yma i ben bydd yn hysbysu'r Cyngor.	
7.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Llŷr Efans fel cynrychiolydd.	
7.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a Nerys John; byddant yn mynychu'r cyfarfodydd rhanbarth pam mae angen.	
8.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	

8.1	**Llwybrau a Lon Las** - Dewiswyd Nerys John, Mei Gwilym a Llŷr Evans ar yr Is-Bwyllgor	
8.2	**Mynwent, Maes Parcio, Safle Moria** - Dewiswyd Casi Roberts, LLiwedd Griffith-Williams ac Eifion Williams	
8.3	**Priffyrdd, Meinciau a Cysgodfannau –** Dewiswyd Daniel Williams, Mei Gwilym a Cynog Prys.	
8.4	**Prosiectau Cymunedol** - Dewiswyd - Nerys John, Casi Roberts ac Elliw Williams.	
8.5	**Gwefan –** Dewiswyd Casi Roberts, Elliw Williams, Mei Gwilym	
8.6	**Cyflogaeth –** Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris a Iwan Huws	
8.7	**Polisïau -** Dewiswyd Iestyn Harris, Cynog Prys ac Iwan Huws	
8.8	**Neuadd Goffa a Cloc –** Dewiswyd Daniel Williams, Casi Roberts, Mei Gwilym, Llŷr Evans a Iestyn Harris	
9.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
	Penderfynwyd parhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
10.0	**SEDDI GWAG**	
	Mae dwy sedd wag ar y Cyngor. Bwriad yw cyfethol yn y cyfarfod misol sydd yn dilyn.	
11.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
	Cadarnhawyd bod Eluned Fôn Jones o Gyngor Gwynedd wedi ei apwyntio fel archwiliwr mewnol. Bydd llythyr apwyntiad gyda manylder yr hyn sydd ei angen yn cael ei anfon ati.	
12.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
12.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2019 - 31/03/2020 gan y Swyddog Ariannol. Cynigwyd ac eiliwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	
13.0	**POLISÏAU'R CYNGOR**	
	Fe wnaethpwyd newidiadau i'r canlynol a'u	
13.1	Rheoli Risg	
13.2	Rheolau Sefydlog	
13.3	Rheoliadau Ariannol	
13.4	Rheolaeth Mewnol (llawllyfr)	
13.5	Polis Amgylcheddol	
13.6	Polisi Diogelu Gwybodaeth	
13.7	Polisi Recrwtio a dewis staff	
13.8	Polisi Terfynu Cyflogaeth	
13.9	Polisi Iaith a Diwylliant	
13.10	Egwyddorion Cymorth Grant	
14.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYFLOGAETH**	
	Dywedodd y Cynghorydd Iwan Huws bod gan y Cyngor 3 aelod o staff a bydd yn trefnu eu bod yn derbyn gwerthusiad yn flynyddol cyn bod unrhyw godiad mewn cyflog. Bydd y gwerthusiad yn cael ei wneud yn wyneb yn wyneb wedi'r cyfyngiadau convid-19 cael eu codi.	

	Nid yw codiad chwyddiant heb ddigwydd ers tua thair mlynedd. Bydd yr Isbwyllgor yn symud ymlaen i gyfarfod eto y mis hwn er mwyn sefydlu polisi ar gyfer cyflwyno chwyddiant ar ben cyflogau yn flynyddol.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 7.40 o'r gloch.	